# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

EOC(3)-07-07(t.1):6 Rhagfyr 2007

### Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

**Diben:**

Mae'r papur hwn yn amlinellu rhai o'r gwersi allweddol a ddysgodd Llywodraeth Cynulliad Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf ac yn gosod allan y ffordd yr ydym yn bwriadu adeiladu ar ein gwaith i weithredu ar yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol er mwyn gwella cyfleoedd bywyd i holl bobl Cymru.

**Argymhelliad:**

Ceir cofnod manwl o'r gwaith a gwblhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2006-2007 ochr yn ochr ag adroddiad ar weithredu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd, Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol a Chynllun Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Atodiad 1 a 2, y naill a'r llall. Ceir copi o'r Adnodd Cydraddoldeb a ddatblygwyd ar gyfer yr Adran Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau yn Atodiad 3.

**Ffeithiau ac Ystyriaethau:**

Ble 'rydym ni nawr?

Wrth fwrw golwg yn ôl dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae'n amlwg fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau breision, nid yn unig o ran cynnwys dinasyddion Cymru ond hefyd wrth brif ffrydio cydraddoldeb i'n prosesau llunio polisïau a'n swyddogaethau busnes mewn ffordd ystyrlon. Tra bo Llywodraeth Cynulliad Cymru'n falch gyda'r cynnydd a wnaed hyd yma, rydym yn ymwybodol fod sialensiau sylweddol o'n blaenau. Mae Cymru wedi dechrau ar gyfnod diddorol a phwysig. Yn sgil sefydlu llywodraeth y glymblaid yn gynharach eleni, creu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ddiweddar a'r Mesur Cydraddoldeb Unigol sydd ar ddod, mae cyfleoedd newydd i Gymru weithredu ar yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol.

Sut yr ydym yn prif ffrydio cydraddoldeb

Yn unol ag adran 77 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'n hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgymryd â  gwaith sylweddol i ddatblygu methodoleg 'Llunio Polisïau Cynhwysol' ac i ddatblygu sylfaen gadarn o dystiolaeth ar sail ardal weinyddiaeth.

Y fethodoleg 'Llunio Polisïau Cynhwysol' yw ein dull ni o asesu effeithiau a thyfodd hynny allan o'r gwaith a wnaethom yn wreiddiol, ar y cyd gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, i ddatblygu Dulliau Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb Hiliol. Yn dilyn arfarniad o'r dulliau hyn ochr yn ochr â gwerthusiad o nifer fawr o ddulliau asesu effeithiau a ddefnyddir gan awdurdodau cyhoeddus eraill, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu methodoleg ar gyfer llunio polisïau cynhwysol. Mae'r fethodoleg hon yn cynnwys yr holl elfennau cydraddoldeb a chaiff ei phrif ffrydio i'n proses o lunio polisïau. Mewn ymarfer, golyga hynny y caiff polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru, wrth fynd trwy'r peirianwaith Porth i Bolisïau, eu sgrinio ar yr un pryd i sefydlu a oes angen cynnal asesiad llawn o effeithiau.

Mae'r sylfaen dystiolaeth yn hanfodol bwysig i'r fethodoleg 'llunio polisïau cynhwysol'. Dros y flwyddyn a aeth heibio, dechreuwyd ar waith i sefydlu adnodd ar sail ardal weinyddiaeth gan nodi'n fanwl yr ymchwil a gesglir, lle mae i'w chael ayb. Hyd yma, sefydlwyd methodoleg a chwblhawyd adnodd ar gyfer yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Atodiad 3).

Gwersi a Ddysgwyd

Cynnwys ac Ymgysylltu

Cymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gamau pwysig tuag at alluogi proses ystyrlon o gynnwys ac ymgysylltu wrth ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol. Dysgodd y profiad hwn i ni bod angen defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau er mwyn ymgysylltu ag ystod eang o bobl.

Amcanion sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau

Gwyddom ei bod yn bwysig cadw darlun clir yn ein meddyliau o'r hyn yr ydym eisiau ei gyflawni. Mae cyfraniadau ACau trawsbleidiol, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal a mudiadau cydraddoldeb allweddol yn hanfodol i ffurfio'r darlun hwn. Wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu ein Cynlluniau Cydraddoldeb, yr oeddem yn gwrando ar yr hyn a ddywedai ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid wrthym gan geisio adlewyrchu eu blaenoriaethau yn ein cynlluniau. Fodd bynnag, yr ydym ar brydiau wedi ymgolli yn y broses yn hytrach na chadw llygaid ar yr hyn yr oeddem eisiau ei gyflawni. Er bod cofnodi a monitro ein blaenoriaethau yn holl bwysig, yr ydym wedi dysgu ei bod yr un mor bwysig meddu ar weledigaeth o'r gwahaniaethau y dylai ein gwaith ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru.

Arwain y ffordd - Gwaith cydgysylltiedig

Hyd yma y mae rhan fwyaf yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru wedi datblygu eu cynlluniau cydraddoldeb ar wahân i'w gilydd. Er mwyn gweddnewid cyfleoedd bywyd pob dinesydd yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog awdurdodau cyhoeddus i gydweithio er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Yr ydym eisoes wedi dechrau annog gwaith cydgysylltiedig trwy gynlluniau newydd fel prosiect Creu'r Cysylltiadau i sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol ond mae angen gwneud mwy. Dylai blaenoriaethau

Llywodraeth Cynulliad Cymru oleuo cynlluniau cydraddoldeb yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru oherwydd, yn aml, er mai Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n pennu'r polisïau, mater i'r amrywiol awdurdodau cyhoeddus yw eu cyflawni.

Y Dyfodol

Y Cynllun Cydraddoldeb Unigol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y broses o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Bydd hawliau dynol yn greiddiol i'r Cynllun, bydd yn ymdrin â'r chwe elfen o gydraddoldeb, ac fe'i cynlluniwyd i annog dull gweithredu ar sail elfennau lluosog. Un nodwedd allweddol o'r Cynllun fydd dynodi nifer fach o ymrwymiadau strategol allweddol sy'n gosod allan ganlyniadau allweddol, ac a gaiff eu datblygu ar sail thematig yn hytrach nag adrannol. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn bachu ar y blaenoriaethau a nodir yn 'Cymru'n Un' a'r cynllun strategol. Bydd y dull hwn o weithredu yn prif ffrydio cydraddoldeb yn ôl i waith beunyddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru trwy sicrhau bod ymrwymiadau cydraddoldeb yn ffurfio rhan o flaenoriaethau busnes ein hadran yn hytrach nag eistedd ochr yn ochr â hwy.

Cynnwys ac Ymgysylltu

Fel rhan o broses y Cynllun Cydraddoldeb Unigol comisiynwyd ymarferiad ymgysylltu ar raddfa fawr. Corff annibynnol sy'n ymgymryd â'r ymarferiad hwn a'i dasg yw mynnu barn y cyhoedd ar rai materion. Er mwyn sicrhau sampl amrywiol, mae'r corff yn cynnal cyfarfodydd agored, cyfweliadau dros y ffôn a holiaduron ar-lein. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn helpu i oleuo'r ymrwymiadau a nodir yn y Cynllun Cydraddoldeb Unigol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn bwriadu sefydlu cyfres o Baneli Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd y paneli hyn yn ymdrin â'r meysydd canlynol ac yn darparu argymhellion i adrannau LlCC i'w hystyried fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Unigol.

anweithgarwch economaidd;

cynhwysiant cymdeithasol ac adfywio;

darpariaeth o wasanaethau i bobl ifanc a phobl hŷn;

dileu tlodi plant; a

darparu gwasanaethau ym maes iechyd y cyhoedd.

Cymryd yr Awenau - Gwaith Cydgysylltiedig

Er mwyn cefnogi dull cydgysylltiedig o weithredu ar draws y sector datganoledig yng Nghymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu sefydlu Panel Ymgynghorol Allanol. Caiff aelodau'r panel eu tynnu i mewn o amrywiaeth o gyrff cyhoeddus a chyrff trydydd sector a bydd yn chwarae rôl hanfodol yn natblygiad ein Cynllun Cydraddoldeb Unigol. Trwy roi cyfle i aelodau'r panel helpu i siapio blaenoriaethau ein Cynllun Cydraddoldeb Unigol, gobeithir y bydd y blaenoriaethau hyn yn treiddio drwodd i'w Cynlluniau Cydraddoldeb eu hunain a thrwy hynny, yn hwyluso agwedd gydgysylltiedig at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb ledled Cymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw gweithio gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd i symud yr agenda cydraddoldeb a hawliau dynol yn ei blaen. Cyflawnwyd rhywfaint o waith mwyaf llwyddiannus Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y gorffennol yn dilyn cydweithredu clòs gyda'r comisiynau cydraddoldeb blaenorol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gobeithio sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni cydraddoldeb a hawliau dynol i bobl Cymru.

Hawliau Dynol

Mae sefydlu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi codi proffil yr agenda hawliau dynol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi dechrau dod â chydraddoldeb a hawliau dynol at ei gilydd trwy gryfhau ein hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, gan edrych hyd yn oed ymhellach na'r chwe elfen o gydraddoldeb. Yn ddiweddar, sicrhawyd bod hyfforddiant hawliau dynol ar gael i staff Llywodraeth y Cynulliad a chaiff ystyriaethau hawliau dynol eu hesbonio'n glir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Unigol.

**Dr Brian Gibbons AC**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**